27 Mai 2026

Anfonwyd ar e-bost: Correspondence.Sian.Gwenllian@gov.wales

Ynghylch: Cyflawni Rhaglen Lywodraethu Plaid Cymru

Annwyl Siân,

Llongyfarchiadau ar gael eich penodiad fel Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio a chanlyniad etholiad hanesyddol Plaid Cymru. Hoffwn ddymuno'r gorau i chi, eich cydweithwyr yn y Cabinet, a grŵp Plaid Cymru.

Mae'r tymor hwn yn y Senedd yn nodi moment hollbwysig i Gymru. Yn erbyn cefndir o argyfwng costau ynni sy'n effeithio ar gartrefi a busnesau, a gyda'r galw am drydan yn mynd i godi'n sydyn yn ystod y degawdau nesaf, bydd y penderfyniadau fydd yn cael eu gwneud yn y tymor hwn yn y Senedd yn dylanwadu ar y trawsnewid ynni am ddegawd neu fwy. Gyda chefnogaeth briodol gan y llywodraeth, bydd y tymor hwn yn y Senedd yn penderfynu a fedr Cymru gyflawni ei huchelgeisiau o ran trydan adnewyddadwy erbyn 2035 gan gadw'r costau i lawr i ddefnyddwyr a busnesau.

Mae dadansoddiad diweddar yn tynnu sylw at raddfa'r her. Yn 2024, dim ond 54% o'r galw am ynni gafodd ei fodloni gan ynni adnewyddadwy ac, yn 2025, daeth Cymru yn fewnforiwr ynni am y tro cyntaf. Mae nwy sy'n cael ei fewnforio'n cyfrif am tua 58% o gynhyrchu trydan yng Nghymru - cyfran uwch na mewn unrhyw wlad arall yn y DU. Mae hyn yn gadael cartrefi a busnesau mewn perygl sylweddol o ran marchnadoedd ynni rhyngwladol anwadal a sioc prisiau cysylltiedig.

Rydym yn croesawu ac yn rhannu uchelgais Plaid Cymru i Gymru arwain trawsnewid ynni cyfiawn; cryfhau ein diogelwch ynni a darparu buddion economaidd parhaol.

Rydym yn barod i weithio mewn cydweithrediad â'ch llywodraeth i helpu i drosi uchelgeisiau polisi yn ddarpariaeth - ar fyrder, ar raddfa, ac mewn ffordd sy'n darparu budd economaidd a chymunedol hirdymor. Bydd ein parc ynni gwynt ar y tir cyntaf, Twyn Hywel, yn rhoi gwybodaeth amser real am y ffordd y gall buddsoddiad preifat cyfrifol mewn ynni gwynt ar y tir helpu i gyflawni blaenoriaethau polisi'r llywodraeth, a chreu effaith leol ystyrlon. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu â'ch llywodraeth i ddatblygu'r prosiect hwnnw.

O ystyried graddfa'r her, a'r ymrwymiadau sydd wedi'u hamlinellu yn eich Rhaglen Lywodraethu, byddem yn croesawu'r cyfle i gyfarfod â chi i edrych ar sut mae ein dull cyflawni'n cyd-fynd ag uchelgeisiau Plaid Cymru. Byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfarfod yn gynnar yn y tymor newydd, o ystyried pwysigrwydd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud – a'ch agenda chi eich hun ar gyfer – y 100 diwrnod cyntaf.

Ochr yn ochr â'r llythyr hwn, rydym wedi darparu pecyn briffio cynhwysfawr sy'n amlinellu ein portffolio presennol o brosiectau ynni ar y tir, y cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan ynni adnewyddadwy ac ynni gwynt ar y tir, a graddfa'r defnydd o ynni adnewyddadwy sydd ei angen dros y degawd nesaf. Mae'n amlinellu'r heriau sy'n wynebu'r llywodraeth a'r diwydiant a sut gallwn ni gefnogi uchelgeisiau eich llywodraeth.

Bute Energy
Hodge House, Guildhall Place
Cardiff CF10 1DY
029 2167 9750
info@bute.energy
www.bute.energy

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo'n gadarn i chwarae rhan adeiladol a rhagweithiol wrth gyflawni trawsnewid ynni Cymru, ac i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gyfrifol, gyda budd hirdymor clir i Gymru a'n cymunedau.

Yn gywir,

[redacted]

[redacted] Bute Energy

[redacted]

Bute Energy
Hodge House, Guildhall Place
Cardiff CF10 1DY
029 2167 9750
info@bute.energy
www.bute.energy

Registered office: Hodge House, Guildhall Place, Cardiff, CF10 1DY
Bute Energy Limited registered in England and Wales. Company number 12474011

27 Mai 2026

Sent via email: Correspondence.Sian.Gwenllian@gov.wales

Re: Delivering Plaid Cymru's Programme for Government

Annwyl Adam,

Congratulations on your appointment as Cabinet Minister for Local Government, Housing and Planning and Plaid Cymru's historic election result. I would like to wish you, your Cabinet colleagues, and the Plaid Cymru group the best of luck.

This Senedd term marks a pivotal moment for Wales' energy system. Against a backdrop of a cost of energy crisis impacting households and business, and with electricity demand set to rise sharply in the coming decades, the decisions taken in this Senedd term will shape the energy transition for a decade or more. With the right government support, this Senedd term will determine whether Wales can meet its renewable electricity ambitions by 2035 while keeping costs down for consumers and businesses.

Recent analysis highlights the scale of the challenge. In 2024, renewables met only 54% of electricity demand and, in 2025, Wales became an energy importer for the first time. Imported gas accounts for around 58% of electricity generation in Wales — a higher share than in any other UK nation. This leaves households and business at significant exposure to volatile international energy markets and associated price shocks.

We welcome and share Plaid Cymru's ambition for Wales to lead a just energy transition; strengthening our energy security and delivering lasting economic benefits.

We are ready to work in collaboration with your government to help translate policy ambitions into delivery— at pace, at scale, and in a way that delivers long-term economic and community benefit. Our first onshore wind energy park, Twyn Hywel, will provide, in real-time, an insight into the way that responsible private investment onshore wind can help deliver the government's policy priorities, and create meaningful local impact. We look forward to engaging your government in the development of that project.

Given the scale of the challenge, and the commitments outlined in your manifesto, we would welcome the opportunity to meet with you to explore how our delivery approach aligns with Plaid Cymru's ambitions. We would value the opportunity to meet early in the new term, given the importance of decisions taken in – and your own agenda for - the first 100 days.

Alongside this letter, we have provided a comprehensive briefing pack outlining our current portfolio of onshore projects, the opportunities provided by renewables and onshore wind, and the scale of the renewable energy deployment required over the coming decade, including the critical role of the electricity network in achieving energy and decarbonisation goals. It outlines the challenges facing the industry and how we can support your government's ambitions.

Bute Energy
Hodge House, Guildhall Place
Cardiff CF10 1DY
029 2167 9750
info@bute.energy
www.bute.energy

We remain firmly committed to playing a constructive and proactive role in delivering Wales's energy transition, and to ensuring that this is done responsibly, with demonstrable long-term benefit for Wales and our communities.

Yours sincerely,

[redacted]

[redacted] Bute Energy

[redacted]

Bute Energy
Hodge House, Guildhall Place
Cardiff CF10 1DY
029 2167 9750
info@bute.energy
www.bute.energy

Registered office: Hodge House, Guildhall Place, Cardiff, CF10 1DY
Bute Energy Limited registered in England and Wales. Company number 12474011